**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

5ed Rhagfyr, 2024

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), Clifford Williams, John Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen) Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin) Megan Lloyd Williams, John Till (Golan) Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Jess Williams, Gwenno Emlyn Hughes (Penmorfa) Gwilym Evans (Prenteg) Cynghorydd Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau**

Iddon Edwards (Penmorfa), Cynghorydd June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd)

**Datgan Buddiant**

Neb

**Penderfyniadau**

Mynwent Bethel, Golan

Derbyniwyd tri phris ar gyfer cwblhau gwaith ym Mynwent Golan. Cafwyd pris o £1,600, £3,450 a £ £15,750.88. Penderfynwyd derbyn y pris £1,600. CW yn cynnig a HP yn eilio.

Cynllunio

**NP2/16/389J**: Beudy Parc, Golan, LL51 9AQ – Codi uchder bondo a chrib yr annedd bresennol gan gynnwys yr estyniad arfaethedig . Dim gwrthwynebiad.

**C24/0947/36/DT:** 9 Rhesdai Bryncir, Penmorfa, LL49 9RY – Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer Mitsubishi PUZ – WM50VHA 50KW yn sefyll yn rhydd. Dim gwrthwynebiad.

**C24/1008/36/LL:** Llecheiddior Uchaf, Bryncir, LL51 9EZ - To uwchben iard a storfa slyri presennol. Dim gwrthwynebiad.